

Atodiad 1

(Cyng. = Cyngor Lawn , Cab=Cabinet , PALL = Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, PGD =Pwyllgor Gwasanaethau Democraataidd PS= Pwyllgor Safonau)

Darpariaethau	Disgrifiad	Dod i Rym	Swyddog Cyfrifol	Camau Paratoi / Adnoddau	Amserlen	Statws
Rhan 1 Etholiadau	<ol style="list-style-type: none"> Ymestyn yr Etholfraint i oedran 16 i fyny ac hefyd pleidleiswyr tramor cymwys . Dyletswydd i godi ymwybyddiaeth o'r hawl. Hawl i swyddogion Cyngor sefyll etholiad heb ofyn iddynt ymddiswyddo os nad ydynt yn llwyddiannus (eithrir swyddogion mewn swyddi gwleidyddol gyfyngedig) . Hawl i Gyngor ddewis trefn Pleidleisio Mwyafrifol neu STV. 	<ol style="list-style-type: none"> 1 a 2 eisoes mewn grym (ar gyfer etholiadau Mai 2022) 3. Mai 2022 	<ol style="list-style-type: none"> 1,2 -Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol(Swyddog Monitro) 3. Prif Weithredwr. 	<ol style="list-style-type: none"> 1- Mae Tîm Prosiect traws adrannol mewn lle a swyddog wedi ei phenodi i ymgymryd a gwaith cyd-gordio ac ymgysylltu ynghyd ag elfennau eraill gyda grant y Llywodraeth. 2 - Mae gwaith codi ymwybyddiaeth o'r newidiadau i'r ddarpariaeth statudol ynglŷn a phwy sydd yn gymwys ac anghymwys i sefyll wedi cychwyn . Mae hyn ar y cyd gyda Gwasanaeth Democraatiaeth a laith, 3- Gellir adrodd yn benodol ar hyn i'r Cyngor newydd wedi i'r pŵer ddod i rym yn Mai 2022 	<ol style="list-style-type: none"> 1 a 2 Parhaol hyd cyfnod etholiad Mai 2022 3- Dim angen gweithredu hyd wedi Mai 2022. 	<ol style="list-style-type: none"> 1 - Mae'r gwaith yma yn seiliedig ar hyrwyddo ac ymgysylltu yn arbennig felly gyda'r oedran Cyfnod Allweddol 4 a 5 . Mae sefyllfa COVID yn golygu fod y rhaglen hyrwyddo yn parhau yn heriol . Gyda cyfleon i fynychu sefydliadau addysg yn gyfyng rydym yn edrych ar ffyrdd eraill o gyfathrebu ac hyrwyddo. 2- Yn cael ei gyflawni.
Rhan 2 Pennod 1 Pŵer cymhwysedd cyffredinol i Awdurdodau Lleol	Rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i Brif Gyngor a rhai Cyngorau Tref a Chymuned Cymwys. Mae Cyngor yn ddibynnol ar hawl statudol i wneud unrhyw weithgaredd. Mae'r ddarpariaeth yma yn rhoi pŵer cyffredinol i weithredu heb ei gyfyngu i swyddogaeth benodol.	Tachwedd 2021	Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol (Swyddog Monitro)	Nodyn Briffio Penaethiaid Adrannau	30 Medi 2021	Nodyn briffio a chyflwyniad wedi ei ddarparu i Benaethiaid Adrannau.

<p>Rhan 3 Hybu Mynediad at Lywodraeth Leol,</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Hawl i gynnal cyfarfodydd ffurfiol ar sail “hybrid” a rhithiol ond mae angen mabwysiadu Polisi 2. Rhoi hawl mynediad o bell gan aelodau ar sail statudol 3. Ymgorffori newidiadau i faterion megis cyhoeddi rhaglenni cyfarfodydd ac ymdrin a materion megis cyhoeddi penderfyniadau. 4. Dyletswydd i annog cyfranogiad y cyhoedd mewn materion megis penderfyniadau 6. Gofyn i fabwysiadu Strategaeth Cyfranogiad 7. Gofyn i fabwysiadu Cynllun Deisebau 8. Gosod gofyn statudol i we ddarlledu ystod o gyfarfodydd. 9. Gofyn cyhoeddi Canllawiau i'r Cyfansoddiad 	<p>1,2,3 Mai 1 2021</p> <p>4- 9 Mai 2022</p>	<p>1-2 a 4- 8 Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol</p> <p>3 a 9 Swyddog Monitro</p>	<p>1 a 2 Gwasanaeth Democratiaeth a laith yn paratoi Polisi ar gyfer trefniadau cyfarfodydd i'w mabwysiadu gan y Cabinet a'r Cyngor Llawn</p> <p>Swyddog Monitro i arwain ar adolygu Cyfansoddiad a pharatoi Canllawiau .</p>	<p>Adrodd i Cabinet a PGD Mis Tachwedd Ar gyfer Cyngor 2 Rhagfyr 2021</p> <p>4- 7 – Disgwylir Arweiniad Statudol ar y gofynion .</p> <p>8. Mae gweithredu yn ddarostyngedig i gyhoeddi rheoliadau fydd yn diffinio natur y gofyn.</p> <p>9. Adrodd i Gyngor Mawrth 2022</p>	<p>1 a 2 Bydd adroddiadau yn cael eu cyflwyno yn unol a'r amserlen.</p> <p>3. Mae'r addasiadau ar gyfer cyfarfodydd rhithiol a hybrid wedi eu hymgorffori yn y Cyfansoddiad. Bydd unrhyw newidiadau yn deillio o'r agweddau eraill yn cael eu hymgorffori wrth i'r darpariaethau gael eu sefydlu.</p> <p>9. Mae Templed Canllawiau o'r Cyfansoddiad yn cael ei ddatblygu yn genedlaethol gyda CLIC a chyfreithwyr arbenigol allanol.</p>
<p>Rhan 4 Gweithrediaethau, Aelodau, Swyddogion a Phwyllgorau Awdurdodau Lleol</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Sefydlu swydd dan y disgrifiad “Prif Weithredwr” ar sail statudol gyda cyfrifoldebau penodol. 2. Caniatáu penodi aelodau fel cynorthwyon Aelodau Cabinet 3. Cynnwys darpariaeth rhannu swyddi aelodau Cabinet o fewn trefniadau Cabinet. 4. Caniatáu rhannu swyddi Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion 5. Arweinyddion Grwpiau a chyfrifoldeb statudol am ymddygiad eu haelodau 6. Gosod adroddiad Blyneddol Pwyllgor Safonau i'r Cynghorau ar sail statudol. 	<p>Mai 2022.</p>	<p>1. Pennaeth Gwasanaeth Cefnogaeth Gorfforaethol</p> <p>2,3,4 Swyddog Monitro</p> <p>5 a 6 Swyddog Monitro</p>	<p>1- Addasu swydd ddisgrifiad y Prif Weithredwr.</p> <p>2- 3 Addasu y Cyfansoddiad i adlewyrchu y ddarpariaeth a sefydlu trefniadau. Ar y cyd rhwng y Swyddog Monitor a gwasanaethau Democratiaeth a laith.</p> <p>4 - Gweithredu yn ddarostyngedig ar reoliadau yn dod 'ar ddarpariaeth i rym.</p> <p>5 - Adroddiad ar y ddarpariaeth wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau – Camau i</p>	<p>Mai 2022</p>	<p>1 - Mae Swydd ddisgrifiad y Prif Weithredwr eisoes yna adlewyrchu y newid.</p> <p>2- 3 Addasiadau drafft wedi eu cyflwyno i'r PALI Tachwedd 2021</p> <p>5- Mae'r ymgysylltu wedi llithro. Bwriedir cynnal y cyfarfodydd hyrwyddo gyda aelodau'r Pwyllgor erbyn diwedd Rhagfyr 2021.</p>

				<p>godi ymwybyddiaeth ymysg arweinyddion grwpiau a cynhyrchu Protocol ar hyrwyddo y dyletswydd.</p> <p>6- Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Safonau yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn</p>		
<p>Rhan 5 Cydweithio gan Brif Gyngorau</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Pŵer gweinidogion i sefydlu Cyd Bwyllgorau Corfforedig ("CJC's") . Mae'r rhain yn fath newydd o gorff llywodraeth leol. Byddent yn gorfforaethau gyda statws cyfreithiol eu hunain. 2. Arweinyddion y Cyngorau fydd aelodau craidd 3. Pŵer mandadu – Cynllunio Strategol, Trafnidiaeth, Llesiant Economaidd a Gwella Ysgolion. 4. Rheoliadau wedi eu cyhoeddi yn sefydlu CBC ar gyfer Gogledd Cymru fydd yn ymdrin a Cynllun Datblygu Strategol, Cynllun Trafnidiaeth Strategol a pŵer Llesiant Economaidd, y swyddogaethau yn weithredol o Mehefin 2022. 5. Hawl gan 2 neu fwy o gyngorau wneud cais i sefydlu drwy offeryn statudol. 	<p>Mewn grym</p>	<p>Mae Gwynedd fel Awdurdod Lletyol Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru yn arwain ar brosiect i ymateb i'r drefn newydd yma .Bydd rhaglen waith ac adrodd yn ôl yn deillio o'r gwaith yma. Arweinir y Prosiect gan yr Arweinyddion a Prif Weithredwyr ar lefel rhanbarthol.</p>	<p>Briffio Cyng. a Cab fel rhan o ymwybyddiaeth Deddf.</p> <p>Adrodd ar oblygiadau rheoliadau sefydlu i Cabinet a Phwyllgorau Craffu</p>	<p>I'w sefydlu ond bydd angen i'r CBC fod yn weithredol ar gyfer 2022 oherwydd y gofynion cyllidol..</p>	
<p>Rhan 6 Perfformiad a Llywodraethu Prif Gyngorau a Dyletswydd Prif Gyngor i adolygu ei berfformiad yn barhaus</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Sefydlu cysyniad o adroddiad perfformiad blynyddol statudol ac ymgynghori fel rhan o'r broses 2. Apwyntio "Panel" ar gyfer cynnal asesiad perfformiad Cyngor - 3. Angen am osod Amcanion Gwella (Gwerth Gorau) yn cael ei ddileu 4. Gofyn fod i 1/3 aelodau y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fod yn aelodau lleyg gan gynnwys y Cadeirydd - 5. Sefydlu ac enwi Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu bellach yn statudol 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Mewn grym 2. Mai 2022 3. Mewn Grym 4. Dod i rym Mai 2022 5,6 Mewn Grym 	<p>Prif Weithredwr a Pennaeth Cyllid o ran trefniadau y Pwyllgor Archwilio</p> <p>4- Cychwyn ar broses penodi aelodau lleyg ar gyfer y Pwyllgor. Adroddiad i PALI a Chyngor Rhagfyr gyda argymhellion</p>	<p>Briffio Cyng. a Cab fel rhan o ymwybyddiaeth Deddf. PALI i arwain</p>	<p>1,2 Adroddiad PALI a Cabinet Gorffennaf 2021</p> <p>5 a 6 adrodd Cyngor fel rhan o raglen diwygiadau Cyfansoddiad.</p>	

	6. Pwyllgor Archwilio a Lywodraethu yn mabwysiadu swyddogaeth trosolwg trefniadau cwynion		ar gyfer maint y Pwyllgor ynghyd a phenodi aelodau lleyg gogyfer Mai 2022. Swyddog Monitro i addasu y Cyfansoddiad i adlewyrchu y newidiadau a gytunir. Swyddog Monitro i weithredu newidiadau Cyfansoddiad 5 a 6 gan eu bod yn ofyn statudol.			
Rhan 7 – Uno ac Ailstrwythuro Prif Ardaloedd	Sefydlu fframwaith ar gyfer proses uno cynghorau pe fyddai cynllun o'r fath yn dod ymlaen.	Mai 2022	Prif Weithredwr	Briffio Cyng. a Cab fel rhan o ymwybyddiaeth er gwybodaeth	Eisoes wedi digwydd	
Rhan 8 – Cyllid Llywodraeth Leol	1. Pwerau i fynnu gwybodaeth yn ymwneud â hereditamentau, gwybodaeth sy'n berthnasol wrth benderfynu a yw person yn atebol i dalu trethi annomestig, 2. Tynnu ymaith y pŵer i ddarparu ar gyfer Carcharu Dyledwyr y Dreth Gyngor sydd yn ymgorffori mewn Deddf yr hyn sydd eisoes yn weithredol drwy Reoliadau.	Mewn Grym	Pennaeth Cyllid	Briffio Cyng. a Cab fel rhan o ymwybyddiaeth er gwybodaeth	Eisoes ar waith	
Rhan 9 – Amrywiol	1. Rhoi statws gwarchodaeth prif swyddog statudol i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. 2. Diddymu y rhwystr ar Swyddog Monitro rhag bod yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd. 3. Darpariaethau ynglŷn ag uno a dad-uno Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.	Mai 2022	Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol Swyddog Monitro – cymryd camau i addasu y Cyfansoddiad.	Mae angen addasu Rhan 11 o'r Cyfansoddiad i adlewyrchu y newidiadau – Gwneir hyn ar gyfer Cyngor Mis Mawrth 2022	Adroddi Gyngor Rhagfyr 2il 2021	Adroddiad PALLI yn cynnwys manylion y newidiadau arfaethedig